


# Diaconiaid yn Eglwys Dduw

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
9 Gorffennaf, 2020

Y Sadwrn diwethaf oedd un o’r achlysuron rhyfeddaf mewn 900 mlynedd yn y Gadeirlan. Mewn un ffordd, roedd y gadeirlan wedi gweld y cyfan o’r blaen, ordeiniad, llawen, llawn gweddi, yn canolbwyntio ar waith yr Ysbryd Glân. Ond mewn ffordd arall, doedd dim modd cael presenoldeb cynulleidfa – roedd gan bawb a oedd yn bresennol ran hanfodol i’w chwarae yn y gweithgareddau – ac ar un adeg yn y gwasanaeth roedd yn rhaid i bawb oedd yno wisgo fisorau, amddiffyniad personol, gan fod yn rhaid i ni ddod yn nes na dwy fetr at ein gilydd wrth arddodi dwylo. Roedd braidd yn ddoniol ond yn hollol ddifrifol yr un pryd.

Ar ôl trafod gyda Llywodraeth Cymru, penderfynwyd y gellid symud ymlaen i ordeinio diaconiaid ar sail fod hynny’n rhan hanfodol o gychwyn gweinidogaeth ond, yn anffodus, bydd yn rhaid i'n hymgeiswyr am yr offeiriadaeth aros tan yr hydref, gan obeithio fod amser gwell o'n blaenau.

Felly, sut deimlad oedd yna yn y gadeirlan y Sadwrn diwethaf? Yn gyntaf, rhyfeddol o sanctaidd. Mae ein cadeirlan yn ‘lle tenau’, mae’r ffin yno rhwng nefoedd a daear yn denau, ar ôl bod yn lle o weddi, y gair a’r sagrafennau am bron i fil o flynyddoedd. Roedd gweld pobl wedi dod ynghyd, yn deisyfu o ddifrif gweld yr Arglwydd wrth ei waith, yn codi cynnwrf a disgwyliadau, y teimlad bod yr Ysbryd yn symud yn y lle hwnnw.



Yn ail, roedd yno ostyngeiddrwydd. Mae ein naw ymgeiswyr am y ddiaconiaeth mor amrywiol: yn ifanc, hen, dynion, merched, priod, Catholig ac Efengylaidd. Mae gan bob un ei stori, gwahanol brofiadau bywyd, gwahanol deithiau ffydd. Mewn gwahanol ffyrdd, roedd taith ysbrydol pob un i’r Eglwys y diwrnod hwnnw wedi parhau am flynyddoedd ac, yn ei thro, wedi bod yn heriol, yn astrus, yn ysbrydoli ac yn drawsffurfiol. Roedd hefyd ostyngeiddrwydd mewn gwybod bod y naw yn teimlo, nid yn unig bod Duw'n eu galw i’r weinidogaeth, ond eu bod yn barod i fuddsoddi eu gweinidogaeth yn nheulu Asaph. Mae yna rywbeth ynghylch bywyd ein Heglwys sydd wedi cydio yn eu dychymyg ac sy'n eu gwneud yn awyddus ac yn frwdfrydig dros rannu yn ein bywyd a'n tystiolaeth.

Yn drydydd, roedd y gadeirlan yn llawn gobaith. Mae’r naw gweinidog newydd yn ddiaconiaid, gweision Iesu Grist, ac yn cael eu galw i fod yn llysgenhadon i’w gariad ac i’w Efengyl yn y byd. Bydd Duw’n defnyddio eu doethineb a’u treiddgarwch i fod gyda phobl y gallan nhw eu helpu. Fe fyddan nhw’n dod â bywyd newydd a safbwyntiau newydd i fywyd teulu Asaph. Rydyn ni’n cael ein newid gan eu galwad, a bydd Duw'n gwneud pethau newydd trwyddyn nhw, pethau nad oes yr un ohonom ni, na hwythau chwaith, hyd yma, yn gallu eu sylweddoli na’u rhagweld.

“Mawrygwch yr Arglwydd gyda mi, a dyrchafwn ei enw gyda’n gilydd. (Salmau 34.3). Rwyf eisiau diolch i Dduw am bopeth yn mae’n ei wneud yn ein plith. Arwydd yw’r naw hyn, symbolau o'r gwaith y mae Duw’n ei wneud yn ein bywydau bob dydd, ac wrth adeiladu ein dyfodol. Rwy’n cael fy nghyffroi gan y potensial sy'n cael ei dangos yn yr ymroddiad sy'n cael ei gynnig yn y bywydau hyn. Rwy’n gobeithio y bydd pawb ar draws yr esgobaeth yn rhannu'r cyffro. Arwydd yw’r naw hyn, mae’n dangos yr hyn y mae Duw'n ei wneud mewn myrdd o ffyrdd eraill yn ein hesgobaeth, yn cadarnhau'r rhai sydd eisoes wedi'u hordeinio ac yn galluogi gweinidogaethau lleyg wrth i bobl gynnig eu rhoddion a'u talentau i gyflawni'r gwaith o adeiladu teyrnas Dduw.

Ar adeg pan mae’r Eglwys yn wynebu heriau mawr ynghylch ei dyfodol a hyfywdra’i strwythurau presennol, rwy’n gweld yr ordeinio’r wythnos ddiwethaf fel blaendal o’r gobaith nad yw Duw wedi gorffen gyda ni eto: yn wir, fod ganddo gynlluniau mawr ar ein cyfer.

